# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "A"

# DYDD MAWRTH, 26 EBRILL 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.I. Jones [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:** M.K. Thomas a D.E. Williams

**Hefyd yn bresennol fel sylwedydd:** Y Cynghorydd P.M. Edwards

**Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

| | | |
|---|---|---|
| Mr R. Edgecombe | - | Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Mr A. Rees | - | Swyddog Trwyddedu |
| Mrs M. Evans Thomas | - | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Yn bresennol fel cynrychiolwyr Awdurdod Cyfrifol:**

| | | |
|---|---|---|
| Mr E. Jones | - | Pen-swyddog Trwyddedu, Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Mr M. Price | - | Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys |

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 10.30 a.m. – 12.20 p.m.**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. CAIS AM AMRYWIO TRWYDDED SAFLE – GWESTY'R DROVERS ARMS, 106 HEOL AWST, CAERFYRDDIN

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth i bawb oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod, a hysbysodd yr Is-bwyllgor fod cais wedi'i gyflwyno gan Felinfoel Brewery Co. Ltd. i amrywio'r drwydded safle mewn perthynas â'r Drovers Arms, 106 Heol Awst, Caerfyrddin, i ganiatáu:-

| | | |
|---|---|---|
| Cyflenwi Alcohol: | Dydd Sul tan ddydd Iau | 08:00 – 01:00 |
| | Dydd Gwener a dydd Sadwrn | 08:00 – 02:00 |
| | Dydd Sul a dydd Llun Gŵyl y Banc, Noswyl Nadolig a Gŵyl San Steffan | 08:00 – 02:00 |
| Lluniaeth Hwyrnos: | Dydd Sul tan ddydd Iau | 23:00 – 01:00 |
| | Dydd Gwener a dydd Sadwrn | 23:00 – 02:00 |
| | Dydd Sul a dydd Llun Gŵyl y Banc, Noswyl Nadolig a Gŵyl San Steffan | 23:00 – 02:00 |
| Oriau Agor: | Dydd Sul ddydd Iau | 08:00 – 01:30 |
| | Dydd Gwener a dydd Sadwrn | 08:00 – 02:30 |
| | Dydd Sul a dydd Llun Gŵyl y Banc, Noswyl Nadolig a Gŵyl San Steffan | 08:00 – 02:30 |

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:-

- Atodiad A – copi o'r cais;
- Atodiad B – copi o'r Drwydded Safle bresennol;
- Atodiad C – sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu;
- Atodiad D – sylwadau Heddlu Dyfed-Powys;
- Atodiad E – sylwadau personau eraill yn ategu'r cais.

Dosbarthwyd copïau o'r eitemau canlynol o ddogfennaeth ychwanegol yn y cyfarfod, gyda chytundeb pob parti:-

- e-bost dyddiedig 14[eg] Ebrill 2016 oddi wrth Glerc Cyngor Tref Caerfyrddin i Heddlu-Dyfed Powys yn hysbysu bod y Cyngor Tref wedi penderfynu cefnogi'r heddlu yn eu gwrthwynebiad i'r cais;
- e-bost dyddiedig 19[eg] Ebrill 2016 oddi wrth y Cynghorydd Alan Speake yn cynnwys ei sylwadau;
- e-bost dyddiedig 22[ain] Ebrill 2016 oddi wrth Glerc Cyngor Tref Caerfyrddin i Heddlu Dyfed-Powys yn nodi rhesymau dros wrthwynebiad y Cyngor Tref i'r cais;
- llythyr dyddiedig 25[ain] Ebrill 2016 oddi wrth Felinfoel Brewery Co. Ltd. i Is-adran Drwyddedu'r Awdurdod ynglŷn ag asesiadau risg a gynhaliwyd yn y Drovers Arms.

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at ei sylwadau fel sydd i'w gweld yn Atodiad C i'r adroddiad.  Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch ei sylwadau.

Cyflwynodd cynrychiolydd Heddlu Dyfed-Powys ei sylwadau ef fel sydd i'w gweld yn Atodiad D i'r adroddiad.  Cyfeiriodd at y ffaith y cafodd Heol Awst ei nodi yn fan problemus o ran ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn 2007 a'i bod wedi parhau i fod yn broblemus ers hynny. Daeth Heol Awst yn brysurach yn 2013/14 ac yn dilyn pryderon ynglŷn â throseddau ac anhrefn ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol, lluniwyd adroddiad ar ddigwyddiadau yn Heol Awst. Un o'r prif ganfyddiadau oedd y bu cynnydd amlwg mewn troseddau ac anhrefn ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn 2014.  A rhwng mis Mai 2013 a mis Gorffennaf 2015, roedd cydberthynas bendant rhwng troseddau ac anhrefn ac adloniant yr hwyrnos ar nos Wener a nos Sadwrn.  Meddai, er nad oedd digwyddiadau o droseddau ac anhrefn wedi'u cofnodi yn erbyn y safle, roedd eu pryderon yn ymwneud â lleoliad y safle a'r lefel o ymddygiad gwrth-gymdeithasol a throseddau ac anhrefn yn yr ardal. Yng ngoleuni'r problemau hyn, gofynnodd yr Heddlu am i bolisi effaith gronnol gael ei fabwysiadu mewn perthynas â'r ardal. Gofynnodd, petai'r Is-bwyllgor yn bwriadu cymeradwyo'r cais, i amodau addas gael eu gosod yn debyg i'r rhai sydd wedi'u gosod ar sefydliadau eraill sydd ag oriau tebyg.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd yr Heddlu ynghylch ei sylwadau.

Ar hynny, aeth cynrychiolydd yr ymgeisydd i'r afael â'r pryderon a'r materion a godwyd gan ddweud bod y cwmni a'r tenant yn llwyr gefnogi unrhyw ymdrech a wneir i leihau troseddau ac anhrefn yn yr ardal. Pwysleisiodd fod y problemau y cyfeiriai'r Heddlu atynt wedi digwydd ar ben pellaf Heol Awst a'u bod yn bennaf ar sail oriau agor hwyr y siopau bwyd brys.  Pwysleisiodd fod gwaith rheoli da wedi dangos y gall y Drovers weithredu'n llwyddiannus yn Heol Awst. Mewn perthynas â gosod amodau ar y drwydded, ni chredai fod hyn yn angenrheidiol a phetai'r

heddlu yn pryderu ynghylch hynny byddent wedi codi'r mater yn flaenorol. Gofynnodd i'r Is-bwyllgor farnu'r cais ar sail perfformiad y safle. Ni fu unrhyw anawsterau na chwynion, ac maent wedi profi y gallant weithredu'n rhesymol a byddant yn parhau i wneud hynny. Nid oeddynt yn gofyn am gydraddoldeb â sefydliadau eraill yn yr ardal sydd ar agor tan 4.00 am.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon ofyn cwestiynau am y dystiolaeth a gyflwynwyd.

Yna bu i'r Is-bwyllgor

**BENDERFYNU'N UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd yr Is-bwyllgor i roi ei benderfyniad, gan

**BENDERFYNU, gan fod yr Is-bwyllgor o blaid rhoi cymeradwyaeth o dan amodau, bod y pwyllgor wedi'i ohirio hyd 12.15 pm er mwyn rhoi amser i bob parti i gytuno ar amodau priodol i'w gosod ar y drwydded.**

Am 12.15 pm ailymgynullodd yr cyfarfod.

Hysbyswyd yr Is-bwyllgor gan Reolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol na ddaethpwyd i gytundeb ynglŷn â'r amodau i'w gosod ar y drwydded.

**PENDERFYNWYD YMHELLACH ohirio'r cyfarfod tan 10.00 am ar ddydd Mawrth17eg Mai 2016 er mwyn galluogi i drafodaeth bellach gael ei chynnal rhwng pob parti mewn perthynas ag amodau priodol i gael eu gosod ar y drwydded.**

<u>**Ailymgynullodd y cyfarfod ar 17eg Mai 2016**</u>

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.I. Jones [Cadeirydd]
**Y Cynghorwyr:** M.K. Thomas a D.E. Williams
**Hefyd yn bresennol fel sylwedydd:** Y Cynghorydd P.M. Edwards

**Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

| | | |
|---|---|---|
| Mr R. Edgecombe | - | Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Mr A. Rees | - | Swyddog Trwyddedu |
| Mr M. S. Davies | - | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Yn bresennol fel cynrychiolwyr Awdurdod Cyfrifol:**
Mr E. Jones - Pen-swyddog Trwyddedu, Cyngor Sir Caerfyrddin
Mr M. Price - Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys

**Y Siambr, Neuadd y Dref, Caerfyrddin : 10.00 am – 10.15 am**

Atgoffwyd pawb gan Reolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol y bu i'r cyfarfod ar 26ain Ebrill 2016 gael ei ohirio i alluogi i drafodaethau pellach gael eu cynnal rhwng pob parti mewn perthynas ag amodau priodol i gael eu gosod ar y drwydded. Dosbarthodd y Pen-swyddog Trwyddedu fanylion yr amodau a gytunwyd ers hynny.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon ofyn cwestiynau.

Yna bu i'r Is-bwyllgor

**BENDERFYNU YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Ar ôl y toriad ailymgynullodd yr Is-bwyllgor i gyhoeddi ei benderfyniad ac ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu a'r Cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais o dan yr amodau a gytunwyd gan yr holl bartïon.**

Y RHESYMAU

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Yr oedd y safle mewn stryd a oedd wedi ei chlustnodi yn natganiad polisi trwyddedu yr awdurdod yn fan problemus o ran troseddau ac anhrefn mewn perthynas ag alcohol.
2. Mae'r Heddlu yn gwrthwynebu'r cais mewn egwyddor ar sail troseddau ac anhrefn.
3. Nid oedd dim tystiolaeth o droseddau ac anhrefn cysylltiedig ag alcohol wedi digwydd ar y safle neu yn gysylltiedig â'r safle.
4. Dim ond 1 achos a gofnodwyd o ymarfer rheoli diffygiol yn y safle, a arweiniodd at rybudd y goruchwylydd safle dynodedig (DPS) blaenorol.
5. Roedd yr oriau cynyddol a geisid yn llai nag oriau terfynol safleoedd trwyddedig yng nghyffiniau'r safle.
6. Roedd yr ymgeisydd wedi gosod teledu cylch cyfyng, staff drws cofrestredig Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) a hyfforddiant staff yn eu lle.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr Heddlu a'r Awdurdod Trwyddedu, ac ar y ffaith nad oedd dim sylwadau gan yr Awdurdodau Cyfrifol eraill. Hefyd roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi ystyriaeth i faterion troseddau ac anhrefn yng nghyffiniau'r safle, ond nad oeddynt i'w priodoli'n uniongyrchol i'r safle.

Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad oedd pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid y cais, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallai roi ystyriaeth briodol iddynt.

Derbyniodd yr Is-bwyllgor dystiolaeth yr Heddlu ar lefel bresennol y troseddau ac anhrefn yn Heol Awst. Derbyniodd yr Is-bwyllgor fod y safle wedi'i redeg yn dda ac nad oedd hanes o droseddau ac anhrefn yn y safle nac yn gysylltiedig â'r safle.

Er bod yr is-bwyllgor yn cydnabod pryderon yr Heddlu y byddai caniatáu'r cais yn beryg o gynyddu'r problemau presennol yn y stryd, nododd fod yr oriau estynedig a geisid yn dal i fod yn sylweddol llai nag oriau agor safleoedd eraill cyfagos.

Derbyniodd yr Is-bwyllgor dystiolaeth yr Heddlu y byddai caniatáu'r cais hwn yn debygol o olygu bod rhagor o yfwyr yn mudo i Heol Awst ac yn aros yno ac y byddai hyn yn effeithio ar y lefel gyffredinol o droseddau ac anhrefn yn y stryd.

Ar gydbwysedd tebygolrwydd felly, daeth yr is-bwyllgor i'r casgliad y byddai caniatáu'r cais fel ag y mae yn debygol o danseilio'r amcan o atal troseddau ac anhrefn.

Ond yr oedd yr Is-bwyllgor wedi'i fodloni y gellid mynd i'r afael â hyn drwy ychwanegu amodau ychwanegol i'r drwydded safle yn hytrach na gwrthod y cais yn llwyr.

Ar gydbwysedd tebygolrwydd, yr oedd yr Is-bwyllgor wedi'i fodloni bod yr amodau a gytunwyd rhwng y partïon yn gymesur, ac yn briodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**